**Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin SWWR-01-03(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener, 31 Ionawr 2003 | |
| **Amser:** | 10.00 am tan 12.55pm | |
| **Lleoliad:** | Neuadd y Plwyf, Llangynydd, Gwyr | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Val Lloyd (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Cynog Dafis | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| | Andrew Davies | Gorllewin Abertawe |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Edwina Hart | Gwyr |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| | Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| **Cyflwynwyr:** | Yr Athro Dave Adamson | Cynghorydd Arbenigol, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai |
| | Liz Court | Sefydliad Datblygu Cymunedol |
| | Carol Green | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe |

| | |
|---|---|
| Lorraine Miles | Gwasanaeth Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Arnold Phillips | Dinas a Sir Abertawe |
| Val Thomas | Rhwydwaith Coleg Agored De Orllewin Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth:

| | |
|---|---|
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Glyn Davies | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Delyth Evans | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Meithrin Gallu i Adfywio Cymunedau**

2.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu hanfon yn ffurfiol at Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, fel rhan o adolygiad y Pwyllgor hwnnw o adfywio cymunedol.

2.2 Dywedodd Gwenda Thomas fod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi mynd ati, ym mis Awst 2001, i gynnal adolygiad o adfywio cymunedol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn cael ei gynnal i astudio'r amryw bolisïau a'r rhaglenni a oedd yn bodoli eisoes er mwyn ceisio hyrwyddo'r gwaith o adfywio cymunedau, canfod sut roeddent yn cael eu hariannu a'r rhan roedd partneriaeth yn ei chwarae yn y broses o'u datblygu ynghyd â pha agweddau eraill ar yr agenda adfywio cymunedol y dylai'r Pwyllgor roi sylw iddynt. Cafodd adroddiad y Pwyllgor ar yr adolygiad ei gyhoeddi ym mis Medi 2002 a gwnaeth 18 o argymhellion. Cafodd pob un ohonynt eu derbyn gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ôl i gam gyntaf yr adolygiad gael ei gwblhau, roedd yn amlwg fod yna rai materion a oedd yn cael eu codi dro ar ôl tro, ac er nad oeddent yn llesteirio'r broses o adfywio cymunedol, nid oeddent ychwaith yn rhoi'r hwb yr oedd yn ei theilyngu.

2.3 Dywedodd yr Athro Dave Adamson fod nifer fawr o'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod cam cyntaf yr adolygiad wedi nodi'n benodol fod meithrin gallu ymysg y materion a oedd yn peri'r pryder mwyaf. Roedd yn rhaid creu, meithrin, datblygu gallu a dod o hyd i adnoddau ar ei gyfer ac roedd ail gam yr adolygiad yn canolbwyntio ar sut y gellid gwneud hynny. Roedd sicrhau adnoddau yn sylfaenol i waith llawer o'r asiantaethau wrth iddynt fynd ati i adfywio cymunedau, nid yn unig o ran adnoddau ariannol ond hefyd o ran adnoddau ffisegol, megis adeiladau, cyrsiau a darparu hyfforddiant. Ymysg rhai o'r materion pwysicaf a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod ymweliad y Pwyllgor ag Iwerddon yn ddiweddar oedd bod darparu gofal plant yn sail i'r holl agenda adfywio cymunedol. Roedd angen i aelodau o'r gymuned gael cyfleoedd dysgu, wedi'u darparu yn y gymuned, mewn lleoliadau cymunedol gan diwtoriaid lleol. Roedd pwyslais mawr yn cael ei roi hefyd ar ddysgu trwy weithio yn y gymuned, sef meithrin y sgiliau angenrheidiol yn raddol ac mewn ffordd ddidrafferth. Mynegwyd peth pryder ynghylch gallu cyrff statudol a mudiadau gwirfoddol i ymateb i'r galw o ystyried prinder y gweithwyr cymwys ym maes adfywio cymunedol. Roedd yr amser roedd hyfforddiant yn ei gymryd yn un o'r problemau wrth geisio sefydlu gweithlu medrus. Un ateb posibl oedd cynnig ffyrdd a fyddai'n golygu bod aelodau o'r gymuned yn cymryd llai o amser i feithrin y sgiliau mwyaf sylfaenol. Roedd yna broblemau o ran achredu'r hyfforddiant. Roedd llawer o'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol neu ar sail ad hoc ac nid oedd y bobl a oedd yn cael eu hyfforddi yn cael unrhyw achrediad y gellid ei ddefnyddio mewn maes arall. Roedd ansawdd y hyfforddiant hefyd yn destun pryder, gan ei fod yn bosibl i unrhyw un sefydlu ei hun fel hyfforddwr yn y maes hwn. Roedd llawer o'r bobl a oedd wedi rhoi gwybodaeth i'r adolygiad wedi awgrymu sefydlu Grwp Cynghori Cenedlaethol i oruchwylio'r agenda adfywio a byddai'r Pwyllgor yn ystyried hyn wrth baratoi'i argymhellion.

**Dinas a Sir Abertawe**

2.4 Rhoddodd Arnold Phillips, y Cyfarwyddwr Tai, gyflwyniad ar ran Dinas a Sir Abertawe, a gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Nid dim ond cyfres o brosiectau oedd adfywio cymunedol ond yn hytrach ffordd wahanol o weithio.
- Roedd yn rhaid i asiantaethau statudol bellach roi lles ac adfywio cymunedol wrth galon eu gwaith.
- Roedd rhai cymunedau'n tyfu'n gyflymach na'i gilydd. Roedd yn bwysig cydnabod na ellid rhuthro'r broses adfywio.
- Rôl y sector cyhoeddus oedd gwarantu a helpu grwpiau cymunedol, nid ceisio'u rheoli. Roedd angen iddo wrando mwy ar grwpiau cymunedol a'u grymuso.
- Yn Abertawe, roedd cryn waith wedi'i wneud i helpu'r cymunedau cyn mynd i'r afael â phroblemau anodd.
- Roedd y bartneriaeth gwbl gyfartal rhwng yr asiantaethau a'r cymunedau yn golygu eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb yn gyfartal rhyngddynt.
- Cynllun wedi'i ariannu ar y cyd gan raglen Cymunedau Cynaliadwy y Cynulliad oedd 'The Knowledge' ac yn ei sgil, roedd 36 o staff wedi'u hyfforddi ym maes rhyngweithio a datblygu cymunedol. .
- Rhaid oedd creu'r hinsawdd briodol er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Yn Abertawe roedd yna rai partneriaethau cryf ond roedd angen datblygu cysylltiadau rhwng y cymunedau a'r bobl yn yr asiantaethau a oedd yn gwneud y penderfyniadau.
- Roedd gan Gyngor Abertawe Uned Adfywio Cymunedol a oedd yn annibynnol ar yr awdurdod lleol ac roedd cadeiryddion y partneriaethau cymunedol yn aelodau o'i bwrdd rheoli. Ei hamcanion oedd codi proffil adfywio cymunedol, creu hinsawdd a fyddai'n rhoi mwy o gyfle i'r broses lwyddo, hwyluso a chynorthwyo'r partneriaethau cymunedol a harneisio a rhoi cymorth ariannol i'r asiantaethau.

2.4 Dywedodd Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fod Cymunedau yn Gyntaf wedi canolbwyntio'n bennaf ar gymunedau difreintiedig ond fod adfywio cymunedol wedi llwyddo mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, a bod adnewyddu Neuadd y Plwyf yn Llangynydd yn un enghraifft o hyn. Gallai'r cymunedau hyn ddefnyddio'u sgiliau er mwyn helpu cymunedau eraill. Dywedodd hefyd ei bod yn ystyried cynnig bwrsarïau ar gyfer hyfforddiant yn 2003-04.

2.5 Mewn ateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, meddai Arnold Phillips:

- Roedd gan gymunedau eu sector preifat eu hunain (siopau a busnesau lleol). Roedd yn rhaid i adfywio cymunedol fod yn gynhwysol. Dylai gynnwys y bobl a oedd yn gweithio yn yr ardal yn ogystal â'r rhai a oedd yn byw yno.
- Roedd yn bwysig defnyddio sgiliau'r sector preifat. Roedd Cadeirydd Partneriaeth Leol Townhill

a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Datblygu Cymunedol Gorseinon ill dau yn ddynion busnes amlwg.

Meddai Dave Adamson:

- Y ffordd orau o bwyso a mesur prosiectau adfywio cymunedol oedd gofyn i'r gymuned beth oedd wedi gweithio.
- Roedd gan ardaloedd gwledig anghenion gwahanol, ond gellid dal i adfywio cymunedau drwy ddefnyddio unedau teithiol. Byddai modd i gynghorau tref a chymuned chwarae rhan yn hyn o beth.
- Gallai'r ysgolion ddarparu cyfleusterau ardderchog ar gyfer cymunedau lleol, ond at ei gilydd, roeddent ar gau y tu allan i oriau ysgol. Roedd angen datblygu ysgolion cymunedol drwy greu fframwaith cenedlaethol.

2.6 Gwahoddwyd y cyhoedd wedyn i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

2.7 Dywedodd **Alan Bryant** ei bod yn anodd i fusnesau bach gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol oherwydd bod yn rhaid iddynt gael eu hyswirio yn erbyn problemau posibl o ran iechyd a diogelwch.

2.8 Dywedodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd fod premiymau yswiriant wedi codi'n sylweddol. Nid oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw bwerau yn hynny o beth, ond byddai'n codi'r mater gyda Llywodraeth y DU, a oedd yn ystyried cyflwyno yswiriant atebolrwydd ar gyfer mentrau bach a chanolig.

2.9 Soniodd Gwenda Thomas am brosiect yn Ystalyfera lle roedd perchenogion canolfan a oedd yn hyfforddi pobl i ddefnyddio peiriannau trwm wedi sefydlu canolfan motocrós mewn ymateb i broblemau fandaliaeth. Roedd mudiad gwirfoddol o’r enw ‘Guiding Hand’ yn bartner iddynt, ac ef drefnodd yr yswiriant ar gyfer y prosiect.

**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe**

2.10 Rhoddodd Carol Green, Cyfarwyddwr, gyflwyniad ar ran Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, gan wneud y pwyntiau a ganlyn:

- Ers nifer o flynyddoedd, roedd y sector gwirfoddol wedi cynnig cyfleoedd i unigolion ar draws ystod eang o faterion a lleoliadau, ac roedd wedi galluogi pobl i ymwneud â meysydd sy'n destun pryder iddynt.
- Mae sefydliadau, a'r berthynas rhwng amryfal bobl, yn ogystal ag unigolion, yn rhan annatod o gymunedau.
- Nid oedd dod o hyd i dir cyffredin yn fater hawdd bob amser.

- Roedd gan sefydliadau a chlybiau lleol bobl a oedd wedi dangos eisoes bod ganddynt sgiliau arwain. Gallai'r sector gwirfoddol fynd ati i ddatblygu'r sgiliau hyn, ac roedd yn darparu hyfforddiant mewn meysydd megis cadeirio cyfarfodydd, rôl cadeirydd pwyllgor, a negodi. Roedd hefyd yn cynnig hyfforddiant i ymddiriedolwyr wrth ymdrin â chyllid, yswiriant a chyfle cyfartal.
- Chwe blynedd yn ôl, cynhaliwyd ymchwil gan gymuned Bôn-y-maen, Abertawe, i holi barn y trigolion am anghenion iechyd yr ardal. Y Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol ddarparodd yr hyfforddiant angenrheidiol, ac roedd 75% o'r ymchwilwyr hynny bellach wedi cael gwaith cyflogedig.
- Roedd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe wedi llwyddo i ddenu cyllid o sawl ffynhonnell, ac roedd bellach yn gallu cynnig Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) mewn gwaith cymunedol i bobl o'r gymuned leol.
- Roedd angen rhoi cyfle i gymunedau lwyddo. Roedd angen iddynt deimlo bod modd cyrraedd y nod, heb orfod ymdopi â gormod o fiwrocratiaeth a gwerthuso.
- Roedd angen cyfleoedd ar gymunedau i gyfarfod â chymunedau eraill yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol er mwyn rhannu profiadau.
- Roedd angen i sefydliadau statudol a gwirfoddol osgoi defnyddio jargon er mwyn gwneud yn siwr bod yr amryfal bartneriaid yn gallu cyfathrebu â'i gilydd mewn ffordd glir a diamwys.
- Roedd cwrs gwaith cymdeithasol Prifysgol Abertawe yn arfer rhoi pwyslais mawr ar waith cymunedol. Bellach, roedd hyn wedi newid, ac roedd wedi effeithio'n andwyol ar niferoedd y gweithwyr cymunedol yn yr ardal.
- Nid oedd pobl am deithio i gael hyfforddiant; roedd yn rhaid iddo fod o fewn cyrraedd hwylus i'r gymuned leol.
- Ni fyddai Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru'n gwella oni bai fod lefelau cyflogaeth yn codi mewn cymunedau difreintiedig.
- Roedd angen i sefydliadau mawr ddeall diwylliant grwpiau gwirfoddol a chymunedol.
- Roedd yn bwysig bod sefydliadau statudol yn deall yr effaith y gallai gweithdrefnau biwrocrataidd ei chael ar bartneriaid yn y gymuned.
- Roedd angen mynd ati i gydgysylltu adnoddau a ffynonellau cyllid yn well.
- Roedd cynghorwyr lleol yn hanfodol bwysig i'r broses adfywio cymunedol, ond yn aml, nid oedd pobl yn siwr ynghylch sut i roi rhan iddynt.

2.11 Yna gwahoddwyd y cyhoedd i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

2.12 Dywedodd **Tony Lewis, Ysgrifennydd Neuadd y Plwyf, Llangynydd**, ei bod yn bwysig, wrth ymgymryd â phrosiect cymunedol, dod o hyd i Hyrwyddwr brwdfrydig yn y gymuned, a mynd ati wedyn i feithrin yr Hyrwyddwr hwnnw.

**Sefydliad Datblygu Cymunedol Cymru**

2.13 Cafwyd cyflwyniad gan Liz Court, Cyfarwyddwr Cymru, ar ran y Sefydliad Datblygu Cymunedol, a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd y Sefydliad Datblygu Cymunedol yn darparu cymorth ar gyfer prosiectau cymunedol, yn paratoi deunyddiau ar yr arferion gorau, yn gweithio gyda gwneuthurwyr polisi, ac yn cynnig cyrsiau hyfforddi a chynadleddau ar gyfer gwneuthurwyr polisi, gweithwyr proffesiynol a phobl leol.
- Prif nod y Sefydliad oedd meithrin arbenigedd, ac roedd Cymru'n cael ei chydnabod o fewn strwythur y DU.
- Byddai'r Sefydliad yn gweithio gyda phartneriaid bob amser, mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd trefol.
- Roedd cydnabyddiaeth eang bellach i'r ffaith bod meithrin gallu yn ffordd effeithiol o ddenu pobl i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion cymdeithasol ac economaidd, a'i fod yn hanfodol er mwyn mynd ati mewn ffordd gynaliadwy i adfywio cymunedau.
- Roedd tystiolaeth gynyddol bod meithrin gallu yn helpu i ennyn ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned, a chryfhau'r teimlad hwnnw. Roedd yn rhoi cyfle i bobl ddylanwadu ar y ffordd yr eir ati i ddarparu gwasanaethau ac i effeithio ar benderfyniadau lleol. Roedd cymunedau gweithgar, a oedd â'r gallu i weithredu, yn fwy tebygol o ymddiddori yn y broses ddemocrataidd.
- Roedd ymrwymiad yn y broses meithrin gallu i gydraddoldeb, i alluogi, ac i greu cymunedau gweithgar a chynaliadwy, gan seilio hynny ar gyfiawnder cymdeithasol a pharch at eraill.
- Ni ddylai'r broses meithrin gallu ganolbwyntio'n unig ar gymunedau lleol, am ei bod yn cynnig cyfleoedd dysgu y gallai'r cyhoedd ac asiantaethau statudol eu rhannu â'u cymunedau. O safbwynt y broses hon, roedd hi'n hanfodol:
    - nad oedd yn gwastraffu amser y gymuned;
    - ei bod yn cael effaith amlwg a mesuradwy;
    - ei bod yn arwain at fanteision y gellid eu rheoli;
    - ei bod yn cael ei datblygu o fewn strategaethau hirdymor cynaliadwy;
    - ei bod yn helpu i ddod o hyd i adnoddau, a'u dyrannu mewn ffordd briodol a theg;
    - ei bod yn arwain at greu'r incwm mwyaf posibl;
    - ei bod yn cadw arian yn yr economi leol;
    - ei bod yn lleihau dibyniaeth ar yr economi arian parod;
    - ei bod yn galluogi'r broses trosglwyddo perchenogaeth i fynd rhagddi.

- Roedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth arwain y gwaith o greu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu'r economi gymdeithasol ac ar gyfer rhoi rhan i'r awdurdodau lleol yn hyn o beth.
- Roedd ystod eang o sgiliau ac arbenigedd ym maes datblygu cymunedol ar draws pob sector yng Nghymru, ond byddai asesiad manwl o'r anghenion hyfforddi, a chyngor proffesiynol am y sgiliau allweddol y mae eu hangen er mwyn gweithio gyda chymunedau, yn helpu i wella ansawdd y cymorth a gynigir.
- Roedd Dolen Arferion y Sefydliad Datblygu Cymunedol yn tynnu ar brofiadau ymarferwyr a oedd yn gweithio ar amrediad eang o brosiectau datblygu cymunedol, ac roedd ar gael drwy gronfa ddata rhyngweithiol.
- Roedd cyflwyno'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dangos bod dull o weithredu ar sawl haen yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â gweithio gyda chymunedau.
- Dim ond os oeddent yn diwallu anghenion lleol y byddai mentrau cymunedol yn llwyddo.

- Roedd problemau tebyg i'w gweld mewn sawl ardal, felly gallent ddefnyddio'r un dulliau i gryfhau eu cymunedau.
- Roedd polisïau y penderfynir arnynt ar y lefel uchaf yn effeithio ar ddatblygu cymunedol, felly roedd yn rhaid wrth fframwaith polisi a fyddai'n cefnogi'r gwaith hwn.
- Gallai'r sector gwirfoddol ac ELWa weithio gyda phartneriaid eraill i ddod â rheolwyr hyfforddiant ynghyd i gyfuno hyfforddiant cymdeithasol-economaidd a hyfforddiant datblygu cymunedol ac i ddyfeisio cyrsiau hyfforddiant drwy gyfnewid.
- Roedd y Sefydliad Datblygu Cymunedol yn cynnal arolwg o'r cyrsiau Addysg Uwch a oedd yn cynnig hyfforddiant mewn pob agwedd ar ddatblygu cymunedol.

2.14 Yna gwahoddwyd y cyhoedd i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

2.15 Gofynnodd **Jeanie Grey, y Gronfa Cyfleoedd Newydd**, a allai gofal plant fod yn fusnes cymunedol hyfyw ac a oedd hi'n bwysig bod gofal, addysg a datblygiad y blynyddoedd cynnar yn cael eu hintegreiddio.

2.16 Dywedodd Helen Mary Jones y gallai gofal plant ddatblygu'n fusnes cymunedol, ond y byddai llawer o gymunedau'n rhy dlawd i gynnal busnesau o'r fath am gyfnod estynedig. Mynegodd bryder hefyd ynghylch y ffaith y gallai'r adnoddau a delir i sefydliadau datblygu cymunedol fod yn fwy defnyddiol yn y gymuned.

2.17 Dywedodd Edwina Hart fod nifer y sefydliadau datblygu cymunedol yng Nghymru yn destun pryder iddi hi hefyd, a bod hwn yn fater y gallai'r Cynulliad, o bosibl, ei ystyried.

2.18 Dywedodd **Tony Lewis, Ysgrifennydd Neuadd y Plwyf, Llangynydd**, eu bod yn anelu at sicrhau bod y Neuadd ar gael i ystod eang o sefydliadau cymunedol, a hynny am y pris lleiaf posibl. Roeddent wedi llwyddo i gael grantiau cyfalaf a grantiau refeniw, ond roedd pryder am y ffaith y byddai'n rhaid i'r Neuadd ddod o hyd i arian o rywle arall unwaith y deuai'r cyllid refeniw i ben. Ond roeddent am sicrhau na fyddent yn colli'u hannibyniaeth Ar hyn o bryd, roedd Pwyllgor y Neuadd mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a chyda Coleg Gorseinon. Roedd cost rhedeg y Neuadd yn sylweddol, er enghraifft, roedd y costau yswiriant yn unig yn £3,000 y flwyddyn.

2.19 Dywedodd yr Athro Dave Adamson fod sefydliadau yn Iwerddon a oedd yn cynnig gwasanaeth i'r gymuned yn cael eu talu am wneud hynny, ond mai'r farn gyffredinol yng Nghymru oedd y dylai grwpiau cymunedol sefyll ar eu traed eu hunain.

2.20 Dywedodd Edwina Hart ei bod yn cynnal trafodaethau gyda'r sector gwirfoddol ynghylch darparu symiau i'w dyrannu'n benodol i gymunedau. Roedd yr awdurdodau lleol wedi cytuno hefyd i drafod y mater hwn gyda'r sector gwirfoddol.

**Rhwydwaith Coleg Agored De-orllewin Cymru**

2.21 Rhoddwyd cyflwyniad gan Val Thomas, y Prif Swyddog, ar ran Rhwydwaith Coleg Agored

De-orllewin Cymru, a gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Rhwydwaith o aelodau oedd Rhwydwaith y Coleg Agored o'r sector addysg, y sector hyfforddiant a'r sector gwirfoddol, a oedd yn darparu gwasanaeth achredu ar gyfer pob math o ddysgu, a hynny ym mhob pwnc a maes galwedigaethol.

- Roedd cymhwyster wedi'i sefydlu ar gyfer gweithwyr gofal plant, er mwyn sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes gofal plant yn y gymuned yn cael cydnabyddiaeth sylfaenol am eu gwaith.
- Roedd yna bobl yn y gymuned a oedd yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl iddi, ac roedd Rhwydwaith y Coleg Agored yn helpu pobl i ddeall sut roedd mynd ati i fod yn arweinydd.
- Roedd hi'n bwysig bod hyfforddiant a chymwysterau yn bodloni anghenion unigolion.
- Mewn egwyddor, roedd cyfrifon dysgu unigol yn syniad ardderchog, ond roedd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddysgu oddi wrth Loegr er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle.

**Eitem 3: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2002**

3.1 Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Byddent bellach yn cael eu cyfeirio'n ffurfiol at y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

3.2 Dywedodd y Cadeirydd mai dyma'r cyfarfod olaf o'r Pwyllgor cyn yr etholiad, a diolchodd i Cynog Dafis, Delyth Evans a Richard Edwards, na fyddent yn sefyll eto, am eu cyfraniad i'r Pwyllgor.